# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar y 13eg o Fawrth 2018
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Wyn Jones a Ruby Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Barry Owen, Gerallt Davies, Garym Roberts, Wyn Evans, Eiddwen Merritt a Jocelyn Andrew.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Chwefror a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Materion Cynllunio:**
Er gwybodaeth.
Cyf yr Apêl: APP/D6820/A/18/3195958
Llaethliw, Neuaddlwyd
Addasu adeilad allanol yn uned gwyliau.

**Dewis Cymru:**
Darllenwyd datganiad i'r wasg am wasanaeth sydd ar gael i gefnogi sefydliadau lleol drwy uwch-lwytho eu manylion ar gyfarwyddiadur ar-lein, bydd trigolion Ceredigion yn gallu darganfod yr adnoddau helaeth yn y sir.

**Un Llais Cymru:**
Gwahoddwyd y Cyngor i adnewyddu ei aelodaeth ag Un Llais Cymru unwaith eto a phaswyd i ymuno.
Pris yr aelodaeth eleni yw £153.00.

**Ystyried Cais Ariannol:**

Penderfynwyd i roi rhoddion ariannol i'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Macmillan Cancer Support | £50 |
| Teenage Cancer Trust | £50 |
| Tenovus | £50 |
| Gofal mewn Galar | £50 |
| Samariaid | £50 |
| Apel Ambiwlans Awyr Cymru i Blant | £50 |
| Cyngor ar Bopeth Ceredigion | £50 |
| Urdd Gobaith Cymru Ceredigion | £50 |
| C. Ff. I. Ceredigion | £50 |
| Theatr Felinfach | £50 |
| Cymru – Ohio | £50 |

**Unrhyw Fater Arall:**

Penderfynwyd i ail drefnu ein cinio blynyddol i'r 27ain o Ebrill yn Nhafarn Dyffryn Aeron.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10ed o Ebrill.